

Datganiad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru - Cytundeb Dwyochrog ar y Bil Amaethyddiaeth a Chtundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Amaethyddiaeth

Gan fod amaethyddiaeth yn faes datganoledig, caiff pob gweinyddiaeth yn y DU y cyfle i ddatblygu polisi sy'n addas i'w hamgylchiadau ei hun pan fydd y DU yn gadael yr UE, ond bydd gofyn iddyn nhw weithio gyda'i gilydd lle y mae'r gweinyddiaethau yn cytuno bod eu hangen.

Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth i Senedd y DU ar 12 Medi 2018. Mae'n rhoi pwerau newydd i Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau dilyniant ac i newid y cynlluniau cymorth amaethyddol yn Lloegr. Ar gais Llywodraeth Cymru mae'n rhoi pwerau tebyg i Weinidogion Cymru (yn ogystal ag estyn rhai darpariaethau i Ogledd Iwerddon). Cyhoeddodd ein Llywodraethau ddatganiad ar y cyd ar 12 Medi 2018 ynghylch sut y byddwn yn gweithio'n glos gyda'n gilydd i sicrhau canlyniadau gwell i'n diwydiant ffermio, ac i hwyluso deialog agored a thryloyw wrth i'n cynigion ddatblygu. Byddai angen i weinyddiaethau efallai weithio mewn ffordd gydgysylltiedig ym meysydd safonau marchnata, ymyrryd yn y farchnad a threfniadau ar gyfer daliadau sy'n rhychwantu'r ffin.

Rydyn ni heddiw yn cyhoeddi Cytundeb Dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chtundeb y WTO ar Amaethyddiaeth yn gweithio. Mae'r ddwy lywodraeth wedi cytuno ar drefn ar sut i ddefnyddio'r pwerau hyn. Bydd y drefn honno'n cyd-fynd â darpariaethau'r Bil a'r rheoliadau a wnaed o dan y darpariaethau hynny. Bydd y cytundeb ar y trefniadau hyn yn adlewyrchu natur dechnegol benodol rheolau'r WTO [ac ni ddylai ragfarnu'r gwaith ehangach ar ddatrys anghydfodau sy'n cael ei wneud fel rhan o'r Adolygiad o'r Berthynas rhwng Llywodraethau a gomisiynwyd gan y Cydbwyllgor y Gweinidogion].

Rydyn ni wedi cytuno:

- bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn cyflwyno rheoliadau drafft o dan gymal y WTO, a hynny'n unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol a wnaed mewn perthynas â Deddf yr UE (Ymadael) 2018;
- bydd Gweinidogion yn ceisio mynd yn eu blaen drwy gytundeb mewn cysylltiad â'r rheoliadau hyn ond os ceir anghytundeb, bydd deunydd perthnasol ar gael i ddau Dŷ'r Senedd ei weld cyn i Senedd y DU bleidleisio ar y rheoliadau;
- y gweinidogion datganoledig fydd yn gyfrifol yn y lle cyntaf am gynnig categorïau cynlluniau cymorth amaeth datganoledig; a
- bydd rôl i gynghorydd annibynnol fel arfer os bydd y llywodraethau'n anghytuno ar gategorïau'r cynlluniau neu ar faterion perthnasol eraill. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi ystyriaeth i'r cyngor hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad a rhaid iddo

rannu â'r gweinyddiaethau datganoledig y cyngor, y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad er mwyn sicrhau craffu priodol ac atebolrwydd o ran penderfyniadau.

Yn fyr, bwriad y ddwy lywodraeth yw bwrw ymlaen trwy gytundeb. Fodd bynnag, lle na fydd hynny'n bosib, ceir trefniadau cryf i Weinidogion Cymru fynegi eu barn a chael Senedd y DU a Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth i'r farn honno wrth ddelio â'r WTO.

Caiff y trefniadau hyn eu rhoi ar bapur mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac mae Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU wedi cytuno i roi hyn ar glawr mewn datganiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin.

[Cewch weld testun llawn y Cytundeb yn y fan hon.](#)